CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| DYDD MERCHER 28 CHWEFROR 2018 | WEDNESDAY 28 FEBRUARY 2018 |
| am 2.00 o'r gloch yp | at 2.00 pm |

**R H A G L E N**

1. **<u>COFNODION</u>**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2017.

2. **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

3. **<u>DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR</u>**

4. **<u>CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 Y CYFANSODDIAD</u>**

Gofynnwyd y cwestiwn isod y cafwyd rhybudd ohono gan y Cynghorydd Peter Rogers i'r Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS, Deilydd Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff:-

*"Pan fydd yr Awdurdod hwn yn rhoi Rhybuddion yn Unol ag Adran 25 Deddf Draenio Tir, 1991 ar berchnogion tir gyda draeniad yn rhedeg i gyrsiau dŵr, yw hi'n orfodol i'r ffosydd gael eu ffensio?"*

5. **<u>RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD</u>**

I gyflwyno Rhybudd o Gynnig gan:-

- **Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones**

*Mae Porthladd Caergybi yn fusnes economaidd mor bwysig i ni yma yn Ynys Môn, ac mae angen i ni fel Cyngor arwain o ran ceisio sicrhau BREXIT MEDDAL ar gyfer y ffin rhwng Cymru a Gweriniaeth Iwerddon. Rydym ni fel grŵp yn galw am y camau canlynol i gael eu cymryd:-*

*1. Bod llythyr yn cael ei anfon gan y Cyngor hwn at Gyngor Dinas Dilyn yn mynegi ein dymuniad a'n cefnogaeth i weld ffin rydd yn parhau rhwng ein dwy wlad gyda gwahoddiad iddynt anfon cynrchiolaeth drosodd i siarad â ni ac er mwyn i ni arddangos ein dymuniad i barhau i gydweithio â'n gilydd.*

*2. Bod gwahoddiad yn mynd allan i'n cynrchiolwyr yn San Steffan a Chaerdydd yn eu gwahodd i ymweld â ni er mwyn i ni gael gwybod beth maent yn ei wneud i bwyso am ffin mor agored â phosibl rhwng ein dwy wlad.*

*Dim ond drwy ymgysylltu ag ysbryd y bobl y gallwn sicrhau datrysiad o werth i'r argyfwng hwn a allai gael effaith ddinistriol ar borthladd Caergybi a Phorthladd Dulyn.*

- **Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas**

Bod Cyngor Ynys Môn:-

*1. yn annog mentrau di-blastig ac yn hyrwyddo a chefnogi digwyddiadau.*
*2. yn gweithio tuag at lleihau defnydd o blastig a ddefnyddir un tro yn eu safleoedd ac ysgolion.*
*3. yn annog busnesau i ddefnyddio llai o blastig a ddefnyddir un tro.*
*4. yn ethol cynrchiolaeth ar Grwp arfordir di-blastig.*

- **Y Cynghorydd Nicola Roberts**

Mae'r Cyngor hwn yn galw:-

*1. Ar Lywodraeth y DU i oedi cyn cyflwyno'r Credydd Cynhwysol;*
*2. Ar Lywodraeth Cymru i fynnu pwerau datganoli i amrwyio sut y telir Credydd Cynhwysol yng Nghymru.*

**6. <u>CYFLWYNO DEISEBAU</u>**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

**7. <u>POLISI CYMORTH DEWISIOL TUAG AT Y DRETH GYNGOR</u>**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Chwefror, 2018.

**8. <u>Y GYLLIDEB AR GYFER 2018/19 A'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL</u>**

**a) Cyllideb Refeniw 2018/19**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Chwefror, 2018.

**b) Cyllideb Gyfalaf 2018/19**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i diwygiwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Chwefror, 2018.

**c) Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Chwefror, 2018.

**ch) Gosod y Dreth Gyngor**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**d) Diwygio'r Gyllideb**

Cyflwyno'r gwelliant canlynol i gynigion y Gyllideb gan Grŵp Annibynnwyr Môn, yn

dilyn derbyn rhybudd yn unol á Pharagraff 4.3.2.2.11 y Cyfansoddiad fel a ganlyn:-

*"Hoffai Grŵp Annibynnwyr Môn gynnig cynnydd o 3.8% i'r Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn 2018/19.*

*Mae 0.8% o'r cynnydd hwn i'w glustnodi ar gyfer cyllideb ysgolion.*
*Mae 0.2% i'w glustnodi ar gyfer cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau plant.*

*Bydd y gwelliant hwn yn cael ei gydbwyso drwy gymryd £400,000 o'r arian wrth gefn".*

(Sylwer: Mae angen ystyried y cyfan o'r papurau uchod fel un pecyn).

**9. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN – RHEOLI TRYSORLYS 2017/18**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Rhagfyr, 2017.

**10. NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR - DIRPRWYO I'R PENNAETH GWASANAETH (TAI)**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Ionawr, 2018.

**11. DATGANIAD POLISI TÂL 2018**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn - Adnoddau Dynol.

**12. AMSERIAD CYFARFODYDD Y CYNGOR**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 13 Rhagfyr, 2017.